

Gwasanaeth Presenoldeb.

1. Sleid 1 – Dangos cyn i’r sgwrs ddechrau.
2. Sleid 2 – Ydych chi’n gallu meddwl am adeg pan golloch chi mas ar gael ddarn bach sbâr o deisien siocled oherwydd bo’ chi ddim wedi cyrraedd y gegin mewn pryd ar ôl i rhywun ei gynnig i chi?
3. Sleid 3 – A byddai’r deisen honno gyda llaw wedi edrych rhywbeth tebyg i hyn. Blasus iawn!
4. Sleid 4 – Neu efallai bo’ chi wedi colli mas ar brynnu pâr o trainers ffantastig – rhai jest fel o’ch chi wastad wedi eisiau, a hynny am bris ffantastig mewn sêl. Erbyn i chi gyfrif eich arian penblwydd i weld os oedd digon gyda chi, roedd y pâr diwethaf wedi cael eu gwerthu. Am siom.
5. Sleid 5 – A fi’n siwr ein bod ni gyd ar rhyw adeg neu gilydd wedi cael y teimlad o fod yn grac gyda’n gofalmwyr neu’n rhieni am eu bod nhw wedi’n stopio ni rhag mynd i rhywle gyda’n ffrindiau. ‘Dyw meddwl ein bod ni wedi colli mas ar gyfle ddim yn deimlad grêt nadyw?
6. Sleid 6 - Yr un peth da sy’n gyffredin rhwng y 3 profiad yma yw mai colli mas DROS DRO fyddwn ni wedi gwneud ymhob un achos. Daw teisien siocled arall i ni gael darn ohono rhywdro. Daw pâr arall o trainers ar sêl, a daw cyfle arall i fod gyda ffrindiau.
7. Sleid 7 - Ond, os collwch chi mas ar ddiwrnod o ysgol – fe fydd y golled honno – credwch hi neu beidio – yn effeithio ar eich addysg chi am byth. Wir i chi. Gwylwch hwn.
8. Sleid 8 - Chwarae fideo.
9. Sleid 9 - Mae’r wybodaeth fwyaf diweddar sy’ gyda ni yn awgrymu y gallai colli 17 diwrnod o ysgol Uwchradd mewn blwyddyn arwain at ddisgybl TGAU yn cael gradd yn llai nag y gallai fod wedi cael - mewn sawl pwnc - na phe bai wedi bod yn bresenol yn yr ysgol yn fwy aml.
10. Sleid 10 - Ond fel o’dd y fideo ry’n ni newydd ei weld yn dangos i ni, nid jest ar gyfer ysgol mae hi’n bwysig bod yn bresenol cymaint â phosib, a hynny ar amser. Mae hefyd yn wir am y byd gwaith. Dychmygwch pe bai’r doctor sy’n gallu achub bywyd person yn dweud wrth ei hun “Sai’n credu af i i’r gwaith heddi. ‘Wi chwant diwrnod bant”. Beth fyddai effaith hynny? Wrth ddod i’r ysgol ar amser heddi, ry’n ni’n dechrau magu’r arfer y bydd ein cyflogwyr yn mynnu wrtho ni yn y byd gwaith. Mae’r sawl fydd yn eich cyflogi chi yn chwilio am berson fydd yn bresenol, ar amser bob dydd – person fydd yn ddibynadwy. Yma yn yr ysgol heddiw, ry’ch chi’n dechrau ar eich siwrnau o gasglu’r sgiliau bydd angen arno chi drwy weddill eich bywyd.

11. Sleid 11 – Yma'n Sir Gâr roedd presenoldeb disgyblion ysgolion uwchradd yn 93.5% a phresenoldeb plant cynradd yn 94% cyn covid. Ar ôl y pandemig, disgynnodd presenoldeb mewn ysgolion uwchradd i 83% ac roedd presenoldeb disgyblion cynradd yn 89.5%.
73% oedd cyfartaledd presenoldeb disgyblion Blwyddyn 11.
12. Sleid 12 - Os y'ch chi'n teimlo y gallai'ch presenoldeb chi fod yn well, beth allwch chi wneud i helpu'r sefyllfa? Beth am rhoi gôl i chi eich hun i wella? Gallech chi drïo bod ar amser bob bore am wythnos i ddechrau...yna am fis ac yna dau fis...Os oes rhaid colli ysgol am rhyw rheswm pwysig, gwnewch yn siwr eich bod chi'n dal i fyny gydag unrhyw waith ry' chi wedi ei gollu. Os fyddwch chi'n teimlo'n ran o fywyd yr ysgol, ry'ch chi'n fwy tebygol o eisiau bod yno, felly beth am ymuno â wahanol clybiau a gweithgareddau i adeiladu'r teimlad o berthyn i'r ysgol a'r awydd i fod yno?
13. Sleid 13 - Ac os oes angen help arno chi, mynwch sgwrs gydag aelod o staff. Gyda'ch gilydd efallai y gallwch chi adnabod y rhesymau pam eich bod chi'n hwyr neu'n absenol a datrys y sefyllfa. Mae'r Cyngor Sir hefyd yn barod i'ch cefnogi chi a'ch rhieni mewn amryw ffyrdd.
14. Sleid 14 – Hyd yn oed os oes 99 ceiniog gyda chi, allwch chi ddim gwneud punt heblaw eich bod chi'n cael un geiniog fach arall. Felly os oes un geiniog ar goll mae'n effeithio'r ceiniogau eraill. Mae'r un peth yn wir am eich diwrnodau ysgol chi. Beth yw'r ots am gollu un fach nawr ac yn y man meddech chi? Wel, gyda'i gilydd ma' nhw'n cyfrif.
15. Sleid 15 - Felly rhowch y cyfle gorau i chi eich hun lwyddo. Ceisiwch, bob un ohono chi i fod yn bresenol yn yr ysgol, pob dydd, ar amser.